
# y Dinesydd



RHAGFYR/IONAWR 1994/95 RHIF 205
PAPUR BRO CYLCH CAERDYDD



# PAPUR BRO NEWYDD

Mae Caerdydd bellach yn ganolfan cyhoeddi yn yr Wyddeleg! Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf "An Briathar Saor" (Y Gair Rhydd) yn yr haf a'i lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol pan gyfarchwyd cyfarfod ym mhabell y Cymdeithasau gan Harri Pritchard Jones a gohebydd o'r papur wythnosol Gwyddeleg "Anois" (Nawr). Papur "bro" Gwyddeleg ei iaith yw An Briathar Saor, a'i amcan yw fod yn ddolen gyswllt rhwng siaradwyr Gwyddeleg gwledydd Prydain.

Bu blas Cymreig cryf ar y rhifyn cyntaf gyda chyfraniadau gan nifer o Gymry Cymraeg Gwyddeleg Caerdydd. Cynhwyswyd erthyglau am ffilm Hedd Wyn, Nant Gwtheyrn a'r Eisteddfod yn rhifyn cyntaf y papur, yn ogystal ag erthyglau amrywiol oedd yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar weithgareddau Gwyddeleg trwy wledydd Prydain. Disgwylir gweld cyhoedddi ail rifyn y papur cyn y Nadolig.

Un o brif symbylwyr y papur yw Gwyddel Cymraeg adnabyddus, sef Barry Tobin, a fu'n cynnal dosbarthiadau Gwyddeleg yn y ddinas dros y blynyddoedd. Fe gafodd Barry ei urddo i'r Orsedd eleni, gan dderbyn y wisg wen, ar sail ei weithgarwch yn magu cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.

Y flwyddyn nesaf mae'r criw sy'n cyhoeddi An Briathar Saor yn gobeithio trefnu cynhadledd yng Nghaerdydd, i'w chynnal yn y Gymraeg a'r Wyddeleg, i drafod dwyieithrwydd fel y'i ymarferir yn Nghymru, a'i gyferbynnu â sefyllfa'r Wyddeleg yn Iwerddon. Mae sefyllfaoedd y ddwy iaith yn hynod o debyg mewn nifer o ffyrdd. Hyn, mae'n debyg, sydd i gyfrif i raddau helaeth am y diddordeb sylweddol y mae'r Cymry yn dangos yn yr Wyddeleg, fel y tystia cyrsiau Gwyddeleg a gynhelir yn Nant Gwrtheyrn, a'r cwrs cyfrwng Cymraeg a drefnir bob blwyddyn yng Nghonamara gan "Cairde Cymru" (Cyfeillion Cymru). Drwy gynnal cynhadledd, gobeithir y gellir codi diddordeb cyffelyb ymhlith Gwyddelod yn sefyllfa'r Gymraeg.

Gellir cael rhagor o fanylion am An Briathar Saor, cyrsiau Gwyddeleg ac yn y blaen, drwy ffonio Hywel Merfyn ar Gaerdydd 625064.

# APEL AM GYMORTH I DDATHLU PEN BLWYDD PWYSIG

## Mudiad Ysgolion Meithrin

*Annwyl Olygydd*

Bydd 1996 yn flwyddyn fawr yn hanes Mudiad Ysgolion Meithrin gan y bydd yn dathlu 25 miynedd ers ei sefydlu ym 1971. Mae trefniadau uchelgeisiol ar y gweill eisoes i ddathlu gorchest a llwyddiant y Mudiad yn genedlaethol. Ymhlith y gweithgareddau bwriedir cyhoeddi llyfr yn olrhain yr hanes rhyfeddol ar lefel Cylch, Rhanbarth, Sir, a Chenedlaethol, ledled Cymru. Llyfr o luniau a dyfyniadau perthnasol yw'r nod ac mae'r ymchwil a'r paratoi yn mynd yn ei flaen yn reit hwylus. Fodd bynnag, mae rhai bylchau pwysig yn dod i'r amlwg bellach, yn arbennig felly ar y lefel Sirol a Rhanbarthol. Mae'n siwr i nifer dda o'ch darllenwyr wasanaethu fel Cadeiryddion, Ysgrifenyddion neu Drysoryddion ar bwyllgorau o'r fath ac iddynt drefnu gweithgareddau hwyliog boed Rali, Gorymdaith, Protest, Ffair, Cyngerdd neu ddigwyddiad arall y dylid ei goffâu mewn cyfrol o'r fath. Mae'n siwr hefyd fod lluniau o bwyllgorau a digwyddiadau o'r fath yn llechu mewn cypyrddau ac atigau ledled Cymru. Apêl yw hon ar iddynt fynd i chwilio amdanynt ar fyrder a'u benthyg ar gyfer paratoi'r gyfrol. Byddai'n arbennig o fuddiol petai modd enwi'r wynebau yn y llun a chynnwys pwt o eglurhad neu stori bersonol i gyd-fynd â'r llun. Gobeithio y bydd caredigion y Mudiad yn ymateb yn frwdfrydig a phrydlon yn ôl eu harfer oherwydd mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn haeddu cyfrol deilwng o'i gyfraniad yn hanes Cymru'r ugeinfed ganrif.

*Yn gywir*

**CATRIN STEVENS**


y Dinesydd

**BOB MIS MAE DROS 10,000 O BOBOL YNG NGHAERDYDD A THU HWNT YN DARLLEN Y DINESYDD.**

ER MWYN CYRRAEDD Y NIFER MWYAF POSIB O GYMRY CYMRAEG CAERDYDD FFONIWCH CATRIN YN SWYDDFA WERTHIANT Y DINESYDD

**0222 598243**

***Cyfraddau hysbysebion sylw (mono):*** tudalen lawn £350; hanner tudalen £180; chwarter tudalen £100; wythfed tudalen £60; pob colofn cm £7
***Cyfradd hysbysebion cyhoeddi:*** £15

Ffigur nifer y darllenwyr yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg y Dinesydd, Mai 1991

# AMDDIFFYN BYWYD GWYLLT Y TRYDYDD BYD



Rwyn ferch un ar hugain oed sydd newydd raddio o brifysgol Southampton ar ôl astudio Bioleg, a chyn hynny roeddwn i'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Yn ddiweddar cefais fy newis i ymuno â thîm o bobl ifanc sy'n gweithio ar ran cymdeithas o'r enw "The Society for Environmental Exploration' gyda'r nod o amddiffyn bywyd gwyllt mewn rhai o wledydd y trydydd byd. Mis Ebrill nesaf rwyn gobeithio teithio i Uganda i gyflawni gwaith gwirfoddol am dri mis ar un o'r gwarchodfeydd natur yno, er mwyn helpu ei hal-sefydlu a diogelu ei hanifeiliaid.

Mae'n rhaid i mi gasglu £2600 er mwyn cael cymryd y siawns wych hon, ac felly rwyn ysgrifennu atoch gan fy mod eisiau cyhoeddi'r ymgais, yn y gobaith y bydd unrhywun yn fodlon fy nghefnogi. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â mi drwy y Dinesydd. Diolch yn fawr.

Yr eiddoch yn gywir,

**(MISS) RHIAN COLES**

---

### Y Dinesydd Chwefror

Dylid anfon adroddiadau, erthyglau a newyddion at y golygydd, Catrin Lloyd Rowlands, 15 Branwen Close, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4NE erbyn Ionawr 23. Ffôn: 0222 598243

## *FY HAF*

*Bydda i'n cofio yr haf, - fy haf.*
*Ffrwythau melys,a pridd peraroglaidd,*
*Rhosynnau tyner yn cusanu fy wyneb,*
*Y coed tawel yn fy nghysgodi i.*

*Fy haf, roedd y bywyd yn hyfryd.*
*Bydda i'n cofio yr haf.*

*Cyn hir,bydd y gaeaf yn dod,*
*Â bysedd rhewllyd ar y draen,*
*Ond mae cynhesrwydd yn fy nghalon i.*
*Bydda i'n cofio yr haf.*

---

## W.J. YN ENNILL GWOBR BWYSIG

Ddechrau'r mis cafodd W J Jones, un o weithwyr dycnaf Y Dinesydd, ei anrhydeddu mewn sermoni arbennig yng Nghaerdydd. Ef dderbyniodd Dlws Mary Vaughan Jones, yr anrhydedd uchaf ym maes llyfrau i blant, am ei gyfraniad dros y blynyddoedd.

Ers 1957 mae wedi cyhoeddi bron i drigain o deitlau fel awdur, golygydd ac addaswr. Ond serch hynny dywed W J nad yw ei "steil ddim yn ddigon slic i blesio plant heddiw."

"Un o fy mhroblemau i yw bod fy arddull wedi aros yr un peth," meddai. "Mae plant heddiw eisiau arddull mwy slic a chryno. Ond rwy'n ei chael hi'n anodd iawn i sgrifennu'n idiomatig."

Beth bynnag am hynny, mae W J wedi diddannu miloedd o blant Cymru drwy ei lyfrau a'i storiau a gyhoeddwyd mewn cylchgronau megis **Cymru a Cymru'r Plant.**

Llongyfarchiadau mawr, W J.

---

# Apêl Dinesydd 2000

***Tanysgrifiwch £15 i Dinesydd 2000***

Llenwch y ffurflen, ei rhoi mewn amlen a'i dychwelyd at Dinesydd 2000, c/o Surrexit Cysylltiadau Torfol, Rhadbost - Freepost, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 1ZZ

Dymunaf gyfrannu i Dinesydd 2000

☐ £15 ☐ swm arall

(nodwch faint) £________

☐ nid wyf am dderbyn copi drwy'rpost

Enw: ..............................

Cyfeiriad: ..............................

..............................

..............................

Rhif ffôn: ..............................

Dymunaf dalu â siec ☐ ticiwch yma os dymunwch gael derbynneb am eich siec ☐

archeb banc ☐ (llenwch gyferbyn)

***Archeb Banc***

I Fanc ccc ..............................

Cangen ..............................

Byddwch cystal â thalu i Fanc y National Westminster, 10 Heol Hendre, Pencoed, Penybont ar Ogwr, Morgannwg Ganol CF35 5NW (Rhif côd didoli 60-16-48) i gredyd Dinesydd 2000 rhif 56401388, y swm o £______ i ddechrau ar___/___/___ ac wedyn bob blwyddyn/6 mis (dilêwch fel bo'r angen) hyd nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf/ gennym, a debydu fy/ ein cyfrif yn unol â hynny.

Cyfrif i'w ddebydu ..............................

Rhif y cyfrif ..............................

Llofnod (ion) ..............................

Dyddiad ..............................

Cyhoeddir gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig.

# EIN HYMMELIAD A DOCIAU'R BARRI


Ar y deuddegfed o Fedi aeth ein dosbarth ni a dosbarth Mr Evans i ymweld a dociau'r Barri. Ar ein taith fe sylwon ni bod llawer o ffatrioedd fel Hovis a Jewson yno. Prif bwrpas ein hymweliad oedd mynd i fewn i adeilad pwysicaf y Barri sef Pencadlys y Dociau.

Cafodd y Pencadlys ei adeiladu yn 1898. Un peth sydd yn ddiddorol yw'r ffordd mae'r adeilad wedi ei adeiladu ar ffurf calendr. Mae pedwar llawr i'r adeilad sy'n cynrychioli'r pedwar tymor yn y flwyddyn. Yn arwain at bob llawr mae tri deg un gris, sef y nifer mwyaf o ddiwrnodau mewn mis. Mae yna 365 o ffenestri i'r adeilad, un am bob diwrnod o'r flwyddyn a pum deg dau o lefydd tan yn cynrychioli'r wythnosau. Dyn o'r enw Mr Malcolm Keane oedd yn adrodd y hanesion diddorol wrthyn ni.

Do wir, cawson ni ddiwrnod gwerthchweil ac fe ddysgon ni lawer am ddociau'r Barri yn ystod yr ymweliad.

ELINOR CAREY
Ysgol Gymraeg Sant Baruc

Yllun: Hayley Bryan
Ysgol Gymraeg Sant Baruc




# Caneuon Traddodiadol Cymru



Mae pâr o glocs cefn gwlad Cymru ar gryno ddisg un o brif gwmniau recordio'r byd. Rhythm a sain cyffrous traed chwim Catrin Defis sydd i'w glywed ar un o dair ar hugain o ganeuon amrywiol y cryno ddisg newydd "CANEUON TRADDODIADOL CYMRU/ Traditional Songs of Wales". Rhyddhawyd CD/Caset (CD-SDL406/CSDL406) yn ystod mis Medi gan y gantores werin flaenllaw, SIWSANN GEORGE, ar label SAYDISC.

Dyma drydedd albwm cyfres caneuon traddodiadol y cwmni, ac mae'n dangos pa mor wahanol yw canu'r Cymry i'r canu Albanaidd a Saesneg a glywir ar y ddwy albwm sy'n rhagflaenu hon.


Mae albwm Siwsann yn llunio darlun o ganu'r werin Gymreig i gynulleidfa nad yw'n ymwybodol o ddiwylliant a iaith y Cymry. Mae'n drawiadol mai prin yw'r caneuon Saesneg eu hiaith arni, am nad oedd llawer ohonynt, cystal eu crefft a'u cynnwys a'r rhai Cymraeg, ar gael. Dwy gan yn Saesneg (am Gymru) oedd yn ddigon cryf ac addas i'w cynnwys sef "A Miner's Life" a "Llangollen Market". Mae naws hiraethus i nifer o'r caneuon ac urddas hynafol yn perthyn i'r alawon. Clywir son am gariad a phroblemau'r "insiwrans agent" yng nghymoedd glofaol dirwasgiad y 1920au. Yna mae hiraeth, hiwmor cefn gwlad a hen garolau haf a gaeaf.

Ymunir â llais Siwsaml ar bedwar trac gan y gantores Julie Murphy, er mwyn ychwanegu harmoniau pwerus i'r canu. Yn offerynnol, clywir sain y pibe cŵd Cymreig, sitern a chwibanoglau Ceri Matthews, pibydd tref Caerfyrddin. Mae'r awdurdod ar y delyn deires Cymreig, Robin Huw Bowen, yn cyfeilio ar nifer o draciau, a ffidlwr Ar Log a'r Hennessys, Iolo Jones, yntau ar y ffidil, feiola a'r crwth. Ceir cyfraniadau disglair hefyd gan y chwaraewr hyrdi-gyrdi enwog, Nigel Eaton, a Roger Plater (acordion, recorderau) - cyfarwyddwr a threfnydd cerddorol yr holl fenter. Mae llais SIWSANN GEORGE yn un cyfarwydd erbyn hyn fel un cyfoethog llawn emosiwn. Fel cantores y grŵp gwerin arloesol Mabsant, bu'n perfformio'n broffesiynol ers deng mlynedd, yn cyflwyno caneuon gwerin Cymru ar eu newydd wedd ar dros ddwsin o recordiadau. Vyma gam newydd yn ei gyrfa - lle mae i'w chlywed unwaith eto i gyfeiliant acwstig yn "ddi-blyg" - mewn cyfuniad unigryw a chywrain.

Mae agwedd cwmni recordio SAYDISC yn un drylwyr. Gyda'u hagwedd iach a pharchus tuag at y Gymraeg, mae pob sill, sillgoll ac acen grom yn cael ei roi yn ei le. Ym 1965 y sefydlwyd y cwmni, er mwyn arbenigo mewn recordio tafodieithoedd ac arferion anarferol. Erbyn hyn, mae eu catalog gwych o gerddoriaeth ethnig a chlasurol wedi ennyn edmygedd a dilyniant byd-eang am safon uchel eu cynhyrchiadau.

Mae llyfryn y CD yn rhoi geiriau/cyfieithiadau a gwybodaeth ar bob can yn Gymraeg a Saesneg. Mae diolch arbennig i Meredydd Ifans, Roy Saer a Rhidian Griffiths am eu cymorth parod wrth baratoi nodiadau'r caneuon. O ran y dewis o gerddoriaeth y mae SAYDISC yn ei gynnig, gellir ei gymharu â chatalog gwerin arloesol Folkways, a recordiodd Meredydd Ifans nôl ym 1954 yn yr Amerig. Yr un bwriad oedd ganddynt hwythau bryd hynny, sef cyflwyno "Welsh Traditional Songs" i gynulleidfa ym mhedwar ban byd.

# Y CROESAIR - AP LEWSYN RHIF 141




***AR DRAWS***

6. Bron â chyrraedd, ond yn methu. (4,2,4,1,3)
9. Raswyd i greu dychryn. (6)
10. Esiampl a phatrwm i bawb. (8)
11. Toriad dydd y gweithiwr a'r disgybl. 3-5)
13. Wedi eich cvfareddu nes bod yn anymwybodol o amser a lle. (6)
15. Draw y tu cefn inni. (3,3)
17. Croen blaen y llygad. (6)
19. Chwi welwch y byddem yn pwrcasu tegell copr yn emporiwm y dre. (6)
20. Holais B.M. trwyddi draw, a chefais nad oedd modd i'r peth ddigwydd. (8)
22. Perthynas dau gyfaill clos. (8)
24. Dogn gan yr awdurdod. (6)
26. Simsandod. (14)

***I LAWR***

1. Mae'n rhyfedd fod yna le rhwng Llandegai a Llanfairfechan i enw mor fawr. (14)
2. Un o'r Israeliaid. (4)
3. Craidd neges y cytgan. (6)
4. Efallai y byddwch yn sythu wrth wneud hyn. (8)
5. Ystumog y call. (4)
7. Ar fai! (2,4)
8. Darogan dirywiad eiddo a ddaw yn anghyfannedd. (3,1, 2,1'1,3,3)
12. Deunydd brethyn cartref. (5)
14. Gwneuthum yn fyrrach. (5)
16. Cwynodd im y dylid dal eiddo yn gyffredin. (8)
18. Enw o'r fath a roddir ar bob aelod o'r Orsedd. (6)
21. Llygru wrth roi un boncyff o Loegr yn ei chanol hi. (6)
23. Ergyd llym o fwa. (4)
25. Un felly oedd Llywelyn ap Iorwerth. (4)

### CYSTADLEUAETH RHIF 140

Derbyniwyd 19 ymgais y tro hwn, a phymtheg ohonynt yn hollol gywir. Yr enw lwcus a dynnwyd oedd Sian Webb, 1, Victoria Mews, Pontyclun, a mae'r tocyn £5 eisoes ar ei ffordd iddi. Y gweddill o'r datryswyr cywir oedd: –J. D. Williams, Penygroes; Heledd Hall, Treganna; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys –newydd;Huana Simpson, Y Bontfaen; Margaret Jones, Cyncoed; Carys Humphreys, Bangor; Buddug Roberts, Yr Eglwysnewydd; Mrs G. M. Hopkins, Llanisien; Mrs G. Edwards, Ponyclun; Catherine Watkin Thomas, Y Bontfaen; Meinwen Guy, Rhiwbeina; Marged Davies, Llandaf; Morfudd Davies, Aberaeron; a James Wiegold, Rhiwbeina.

### CYSTADLEUAETH RHIF 141

Tocyn Llyfr £5. Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd, erbyn Ionawr 23, os gwelwch yn dda.

### DATRYSIAD 140




### ENILLWYR CYMDEITHAS CEFNOGWYR CANOLFAN YR URDD, CAERDYDD

**Mis Mai**

1af Alan Gwynant
2il Y wobr i'w ddychwelyd i'r gronfa
3ydd Andrew Teilo

**Mis Mehefin**

1af Gareth Lewis
2il Donald Randles
3ydd Hywel Emrys

**Mis Gorffennaf**

1af R O W Edwards
2il Alun a Linda Thomas
3ydd J Williams, Llanelli

**Mis Awst**

1af Robin Bateman
2il Robin Bateman
3ydd Pat Simpson

Os hoffech gefnogi Canolfan yr Urdd drwy ymuno âr Cymdeithas Cefnogwyr (tâl £1 y mis) cysylltwch â Sian Jobbins, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd

## TEYRNGED

Trist yw cofnodi marwolaeth Cymraes a fu'n amlwg ym mywyd addysgol Cymru am gyfnod maith. Roedd Morfudd Williams yn byw ers blynyddoedd bellach yn Mill Close, Llys-faen, ac wedi ymddeol o'i swydd ddiweddaraf yn ddarlithydd yn Adran Addysg, Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

Fe'i ganed yn Nhonpentre a daeth yn fyfyriwr yn y tri-degau i Goleg y Brifysgol, Caerdydd, lle y graddiodd gydag anrhydedd yn y Gymraeg ac wedyn yn Saesneg. Bu'n athrawes am gyfnod cyn cael swyddi fel darlithydd yn y Coleg Normal ym Mangor ac yn ddiweddarach yng Ngholeg y Barri cyn ei phenodi i swydd yn ei hen goleg yma yng Nghaerdydd.

Bu'n fregus ei hiechyd ers cryn amser, ac yn ystod y cyfnod hwn bu'n ffodus i gael gofal eithriadol a chysur a chymorth di-ben-draw gan ei chymdogion yn Mill Close.

Er gwaethaf ei llesgedd roedd ei hysbryd hyd y diwedd mor fywiog ag y buasai erioed a'i sgwrs yn llawn o'r hwyl ac o'r sbort hwnnw a'i gwnaeth mor boblogaidd gan ei chyd-ddarlithwyr a chan genedlaethau o fyfyrwyr.

# Profiad Awdur A Hanesydd

Ar ôl arbrawf llwyddiannus y llynedd pan ddaeth tri awdur atom i son am eu gwaith. edrychai aelodau'r Cylch ymlaen yn eidd-ar at glywed Dr. John Davies, yng nghyfarfod 21 Hydref yn Estyniad Adeilad Dyniaethau yn y Brifysgol, yn sôn am ei brofiad yn llunio'i gyfrol "Hanes Cymru", a chafodd neb ei siomi.

Cychwyn digon amhendant gafodd y fenter - llythyr gall gyhoeddwyr Penguin sbel yn ôl yn awgrymu, pe bai yntau'n digwydd bod yn Llundain rywbryd, hwyrach y carai alw i'w gweld' Ar ôl derbyn eu gwahoddiad i lunio cyfrol ar Hanes Cymru, sylweddolai fod tasg enfawr o'i flaen. A dyna fu - misoedd o ddarllen, dros gant o lyfrau i gyd, cyn mynd ati i roi trefn ar y pentwr o nodiadau a godasai wrth ddarllen.

Roedd nifer o gwestiynau i'w hateb cyn dechrau cyfansoddi. Ble i ddechrau, pa mor bell yn ôl oedd dechrau 'hanes Cymru'? Oedd 'na wahaniaeth rhwng 'Hanes Cymru' a 'Hanes y Cymry'? Sut oedd rhannu'r gwaith - ai blocs mympwyol fyddai'r 'penodau', neu a ddylid torri ar y rhediad wrth sôn am ddigwyddiadau neu ddyddiadau pwysicach na'i gilydd, megis 1282 a 1770? Faint o le ddylai'r awdur roi i'r dyddiau cynnar, o'u cymharu â phynciau a allai fod o fwy o ddiddordeb i bobl heddiw? Sut oedd diffinio 'Cymru' yn yr ugeinfed ganrif - yn wir beth oedd yr anwahanrwydd a allai gyfiawnhau sgrifennu hanes Cymru? Faint o le ddylid ei roi i'r llu o 'gyrff cenedlaethol' ry'n ni mor gyfarwydd â nhw heddiw nad oeddynt mewn bod yn y ganrif ddiwethaf - ar wahân i'r Methodistiaid Calfinaidd?

Roedd yr awdur yn ymwybodol o'r dechrau, gan mai un gyfrol oedd i fod, na allai wneud cyfiawnder a phob achlysur â phob unigolyn o bwys a haeddai lawer mwy o ofod nag oedd ar gael, a gwyddai y byddai beirniadu ar y diffyg sylw a gafodd ambell un.

Yn ninas Fflorens yn yr Eidal y sgrifennwyd rhan helaethaf y gyfrol, am mai yno y teimlai'r awdur y cai fwynhau'r tawelwch a'r naws a'r awyrgylch priodol i ddod a'r gwaith i ben. Roedd y teipysgrif a gynigiodd i'r cyhoeddwyr yn llawer mwy na'r disgwyl, ond, er mawr glod iddyn nhw. fe dderbyniwyd y cyfan a doedd dim angen tocio. Clod mawr i'r Dr. John Davies hefyd am ddarparu cyfrol mor wych.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan y Llywydd a Mr. E.D.Evans.

## Y COMISIWN TELEDU ANNIBYNNOL YN PENODI CYNORTHWYWR RHANBARTHOL NEWYDD I GYMRU A GORLLEWIN LLOEGR



Mae'r Comisiwn Teledu Annibynnol wedi penodi Hywel William yn Gynorthwywr Rhanbarthol i Gymru a Gorllewin Lloegr.

Mae gan Hywel Wiliam, 35, brofiad helaeth ym maes cynhyrchu teledu a marchnata twristiaeth.

Graddiodd Hywel Wiliam yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd a gwnaeth ddiploma yn y Cyfryngau i raddedigion cyn mynd i mewn i'r diwydiant. Mae wedi gweithio ar ochr dechnegol teledu ac mewn cynhyrchu, gyda'r BBC i ddechrau ac yna gyda Barcud, y cwmni adnoddau annibynnol yng Ngwynedd. Mae hefyd wedi cynhyrchu hysbysebion teledu i'w gwmni ei hun, Pow Wow, yn ogystal â nifer o gynlluniau marchnata ar gyfer gwahanol gyrff, gan gynnwys TAC, Teledwyr Annibynnol Cymru.

Bydd Hywel Wiliam yn gyfrifol i Stella Mair Thomas, Swyddog Cenedlaethol y Comisiwn i Gymru a Gorllewin Lloegr, i sicrhau bod cwmniau sydd â thrwyddedau yn cydymffurfio â dulliau gweithredu a chanllawiau'r Comisiwn.

"Rwy'n falch iawn cael croesawu Hywel i'r tîm. Mae ganddo gyfuniad gwerthfawr o fedrau rheolaeth o'r sector preifat ynghyd â gwerthfawrogiad o agweddau ymarferol cynhyrchu teledu a gofynion y gwylwyr", meddai Stella Mair Thomas.

Mae Hywel yn byw yng Nghaerdydd, a'i ddiddordebau y tu allan i'w waith yw cerddoriaeth electronig a gitar jazz.

Y Comisiwn Teledu Annibynnol yw'r corff sy'n gyfrifol am drwyddedu a rheoli'r holl deledu sy'n cael ei ariannu'n fasnachol yn y Deyrnas Gyfunol, boed hwnnw'n cael ei ddarparu dros y tir neu drwy gebl neu loeren, teletestun cyhoeddus a rhai gwasanaethau testun a data eraill.

Yn ogystal â'r swyddfeydd yn Llundain a Kings Worthy ger Caer-wynt, Hampshire, mae gan y Comisiwn swyddfeydd rhanbarthol yn Lloegr a swyddfeydd yn Glasgow, Caerdydd a Belfast.

Bydd y swyddfa yng Nghaerdydd yn delio â Chymru yn ogystal â Gorllewin Lloegr, gan gynnwys Avon, Dyfnaint a rhannau o Wiltshire.

## Cylch Llyfryddol Caerdydd

Festri Minny Street oedd man cyfarfod cyntaf y Cylch nos Wener Medi 23 dan lywyddiaeth y Llywydd 'newydd' Dilwyn Tibbott. Wrth gymryd yr awenau cyfeiriodd at golled y Cylch ym marwolaeth Mair Tysul Jones, un o'r aelodau ffyddlon ac estyn ein cydymdeimlad didwyll â'r teulu.

Oherwydd gwaeledd, methodd Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Dyfnallt Morgan Dyfnallt Morgan, Bangor â dod i agor sesiwn 1994 - 5 ac ar fyr rybudd gwahoddwyd yr ysgrifennydd diwyd E.Wyn James i gymryd ei le. Dewisodd 'Dafydd William: Emynydd y Tonnau' yn destun ei ddarlith ac fel y disgwylid cafwyd traethiad ysgolheigaidd a difyr. 'Y Tonnau' ,wrth gwrs, oherwydd yr emyn tra adnabyddus 'Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau' a'r traddodiad(au) iddo ei gyfansoddi wedi ei gau allan o'i gartref gan ei wraig 'anyndd'. Rhoddodd y darlithydd gefndir manwl ymneilltuaeth y cyfnod a gwaith yr emynydd fel teiliwr ac athro ysgol, ei symud i ardaloedd gwahanol i fyw a'i droi oddi wrth Eethodistiaeth at y Bedyddwyr. Soniodd amdano fel 'un o brif emynwyr y genedl'. Canolbwynt ei ganu oedd Crist ond yn son yr un pryd am bererindod dyn ar y ddaear yn llawn treialon, a sicrwydd y Cristion o nefoedd. Roedd ganddo ddychymyg byw a'r mwyaf byrlymus ei ddelweddau. Cafodd ei fedyddio yn afon Elai yn Llanbedr -y-fro a'i gladdu yng Nghroes -y- Parc heb fod ymhell o San Ifagan. Soniwyd am 'helynt' codi ei gofgofn ysblennydd.

Diolchodd y Llywydd yn gynnes iawn i'r darlithydd a'i ategu gan Hilda Ethall.

BETHLEHEM
Gwaelod
y
Garth

# GWYL Y COFIO

## Nos Sul,Ionawr 22,1995
## 5:00 o'r gloch

Festri Bethlehem, Gwaelod y Garth

## *"R.G.Berry yn nwylo'r ddau Ddafydd"*

**Dafydd Huws, yr awdur a'r sgriptiwr a Dr Dafydd Huws, y seiciatrydd, yn trafod ei waith. Be' welan nhw tybed?**

*Un o gyfres o ddigwyddiadau i ddynodi cyfraniad hynod y dramodydd a'r llenor fu'n weinidog ym Methlehem am 45 mlynedd. Bu farw yn Ionawr 1945.*

## DYSGWYR RHIWBEINA

Mae criw o fenywod Rhiwbeina yn cyfarfod bob bore Iau yn nhy Falmai Griffiths - na, nid i gael clonc, ond i ddysgu Cymraeg> Ar ol gwylio'r Eisteddfod Genedlaethol eleni, cafodd un ohonynt< sef Liz James o Bantmawr, ei hysbrydoli i ysgrifennu pwt o farddoniaeth.

Llongyfarchwn Liz ar ei dawn - efallai y daw coron cyn bo hir. Pob lwc i Liz a'r dosbarth.

## ISER YN SALEM

Dros y deng mlynedd diwethaf, ers yr argyfwng yn Ethiopia, bu Capel Salem, Treganna yn trefnu cyngerdd i gefnogi'r Trydydd Byd.

Bu ser y cyfryngau, ysgolion a chorau yn hynod o garedig yn rhoi o'u talentau yn rhad ac am ddim. Yr ydym yn wir ddiolchgar iddynt.

Llynnedd anfonwyd siec am £1,200 tuag at Apel Rwanda a'r flwyddyn cyn hynny £1,000 tuag at Somalia.

Ac ar y 5ed o Ragfyr cafwyd y degfed Ser Yn Salem, ac fel arfer cafwyd cefnogaeth dda gan Gymry Cymraeg Caerdydd unwaith eto i ddigwyddiad sydd erbyn hyn wedi dod yn rhan o galendr gweithgareddau Cymreig y Ddinas.

Ymysg y rhai fu'n cymryd rhan roedd Cor Meibion Y Barri, Sharon Morgan, Anthony Stuart Loyd, Grwg Jazz Glantaf, Ysgol Coed y Gof, Arwel ac Eleri Peleg Williams, Caryl Parry Jones a Myfyr Isaac a rhai o griw 'C'mon Midffild'. Yr arweinydd oedd Arfon Haines Davies.


LYNN JONES

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

Aelod o FIMBRA

30 Highfields,
Llandaf Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816

# GWYLIAU NADOLIG

## NEWIDIADAU SBWRIEL/AILGYLCHU

## YNG NGHAERDYDD

GWASANAETHAU'R AMGYLCHEDD

Gofynnir i chi gymeryd sylw o'r newidiadau sydd yn nhrefn y dyddiadau casglu sbwriel (a'r sachau ailgylchu os yn briodol) dros y wŷl.

**TREFNIADAU NEWYDD - YR WYTHNOS YN DILYN Y NADOLIG**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun | 26ain o Ragfyr i'w gasglu ar | - Ddydd Mawrth | 27ain o Ragfyr |
| Dydd Mawrth | 27ain o Ragfyr i'w gasglu ar | - Ddydd Mercher | 28ain o Ragfyr |
| Dydd Mercher | 28ain o Ragfyr i'w gasglu ar | - Ddydd Iau | 29ain o Ragfyr |
| Dydd Iau | 30fed o Ragfyr i'w gasglu ar | - Ddydd Gwener | 30fed o Ragfyr |
| Dydd Gwener | 30ain o Ragfyr i'w gasglu ar | - Ddydd Sadwrn | 31ain o Ragfyr |

1 DIWRNOD YN OLYNOL

**TREFNIADAU NEWYDD - YR WYTHNOS YN DILYN Y FLWYDDYN NEWYDD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun | 2ail o Ionawr i'w gasglu ar | - Ddydd Mercher | 4ydd o Ionawr |
| Dydd Mawrth | 3ydd o Ionawr i'w gasglu ar | - Ddydd Iau | 5ed o Ionawr |
| Dydd Mercher | 4ydd o Ionawr i'w gasglu ar | - Ddydd Gwener | 6ed o Ionawr |
| Dydd Iau | 5ed o Ionawr i'w gasglu ar | - Ddydd Sadwrn | 7fed o Ionawr |
| Dydd gwener | 6ed o Ionawr i'w gasglu ar | - Ddydd Sul | 8fed o Ionawr |

2 DIWRNOD YN OLYNOL



Gofynnir i chwi roi eich sbwriel tu allan i'r tŷ naill ai'r noson cyn eich Dyddiad newydd neu cyn 7:00 am fore'r casgliad ei hun.

Gofynnir i fasnachwyr sydd â chytundeb gyda'r Cyngor gadw'r sbwriel i fewn yr adeiladau hyd y casgliad nesaf.

Dylai'r rhai hynny sydd yn derbyn gwasanawth

*FFONIWCH CAERDYDD 822110 GYDAG UNRHYW YMHOLIADAU GLANHAU*